PWYLLGOR SAFONAU

Dydd Iau, 25 Awst 2022

YN BRESENNOL: M. Dodd (Cadeirydd)

Aelodau Annibynnol:
C. Davies, D. Evans, J. James, F. Phillips,

Y Cynghorwyr:
R. James, B.W. Jones a G.B. Thomas

Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:
L.R. Jones, Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith
R. Edgecombe, Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
E. Evans, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd
J. Owens, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
E. Bryer, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Rhith-Gyfarfod - 2.00 - 2.40 yp

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB.

Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan Y Cynghorydd Tref P. Rogers (Aelod Cymundedol).

2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL.

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

3. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR:

3.1. 28AIN GORFFENNAF 2022

PENDERFYNWYD lofnodi bod cofnodion cyfarfod Y Pwyllgor Safonau oedd wedi ei gynnal ar 28ain Gorffennaf, 2022 yn gofnod cywir.

3.2. 4YDD AWST 2022

Derbyniodd y Cadeirydd ymddiheuriad gan y Cynghorydd R. James nad oedd wedi gallu mynychu cyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar y 4ydd Awst, 2022.

PENDERFYNWYD lofnodi bod cofnodion cyfarfod Y Pwyllgor Safonau oedd wedi ei gynnal ar 4ydd Awst, 2022 yn gofnod cywir.

4. GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i newidiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod tra oedd yr eitemau canlynol yn cael eu hystyried, gan fod yr adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym mharagraff 12 a 13 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.

5. YSTYRIAETH GYCHWYNNOL O ADRODDIAD A GYHOEDDWYD GAN OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU MEWN PERTHYNAS Â'R CYNGHORYDD TREF LOUISE WRIDE

Ar ôl cynnal y prawf budd i'r cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 5 uchod, beidio â chyhoeddi cynnwys yr adroddiad gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig am faterion ariannol neu faterion busnes unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno) (Paragraff 12 a 13 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf). Roedd y prawf budd y cyhoedd mewn perthynas â'r adroddiad hwn yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth ynddo byddai datgelu ar y cam cychwynnol hwn o broses dau gam yn anghymesur a byddai'n tarfu'n anfanteisiol ar fywyd preifat a bywyd teuluol y Cynghorydd dan sylw.

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad a dderbyniwyd gan Swyddog Monitro'r Cyngor oddiwrth Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a nododd ganlyniadau'r ymchwiliad i honiadau bod y Cynghorydd Wride wedi torri côd ymddygiad yr aelodau.

Cynhaliodd aelodau, yn unol â'r gweithdrefnau a fabwysiadwyd gan y Pwyllgor, ystyriaeth gychwynnol o'r adroddiad ac yn seiliedig ar gynnwys adroddiad yr Ombwdsmon yn unig daeth i benderfyniad.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL bod yr adroddiad yn cynnwys tystiolaeth o doriad ac y dylai'r Cynghorydd Wride gael cyfle i gyflwyno sylwadau i'r Pwyllgor, naill ai ar lafar neu'n ysgrifenedig, mewn perthynas â chanfyddiadau'r ymchwiliad

_____ _____

CADEIRYDD **DYDDIAD**